



Gofynnwch i'ch mam-gu a'ch tad-cu a'u ffrindiau pa mor aml byddan nhw'n gweld ystlumod. Yna gofynnwch ydyn nhw'n cofio eu gweld pan oedden nhw yr un oed â chi. Gwaetha'r modd, bydd y rhan fwyaf o bobl yn dweud eu bod nhw ddim yn gweld cynifer o ystlumod ag y bydden nhw. Sut gallwn ni wybod ydy hynny'n wir? Ydy'r un peth yn wir am bob rhywogaeth, ym mhob rhan o'r wlad?

Er mwyn cynllunio'r ffordd orau o'u helpu, mae'n rhaid i ni gael gwybod yn gyntaf ble mae ein hystlumod, ydy'r niferoedd yn gostwng mewn gwirionedd, a cheisio deall pam. Rydyn ni'n gwneud hyn trwy gynnal arolygon a monitro, ond beth yw'r gwahaniaeth?

**Arolwg** yw ciplun o'r hyn sy'n bresennol mewn un man ar adeg benodol. Fel **cadw golwg rheolaidd**, sef ailadrodd arolygon dros gyfnod o amser, bwriad arolygon yw catalogio'r hyn sy'n bresennol heb ddod i unrhyw gasgliadau ymlaen llaw ynghylch beth sydd yno neu beth ddylai fod yno. Mae'r rhain yn darparu data gwaelodlin gwerthfawr, a gall unigolion gasglu gwybodaeth mewn gwahanol ffyrdd.

Mae pob cofnod yn wirioneddol bwysig gan eu bod yn ein helpu i ddarganfod yn union pa rywogaethau o ystlumod sy'n byw mewn man penodol.



Grŵp yn cynnal arolwg mewn parc gwledig gan ddefnyddio synwryddion ystlumod

© Shirley Thompson

## Pam mae angen i ni gynnal arolygon?

**Catalogio.** Mae angen i ni wybod beth sydd gennym ni – allwch chi ddim darparu ar gyfer rhywogaethau oni bai eich bod chi'n gwybod beth sydd gennych chi.

**Llywio penderfyniadau.** Mae angen i ni wybod beth yw'r effaith debygol yn achos penderfyniadau penodol ynghylch defnydd tir, megis ceisiadau cynllunio. Gall hynny olygu adroddiad arolwg syml neu Asesiad Effaith Amgylcheddol ar raddfa fwy.

## Beth i'w ystyried wrth gynllunio arolwg

- Pa blanhigion, anifeiliaid neu gynefinoedd fydd yn eich arolwg? Ym mha fath o gynefinoedd maen nhw'n digwydd neu gallen nhw ddigwydd?
- A oes unrhyw gyfreithiau sy'n amddiffyn eich rhywogaethau targed?
- Pa mor aml dylid cynnal arolwg – mae isafswm nifer o samplau a fydd yn rhoi'r uchafswm data i chi, felly ni fydd samplu mwy o reidrwydd yn arwain at fwy o wybodaeth
- Pryd mae cynnal yr arolwg – yn ystod y dydd? Yn y gaeaf? Yn yr haf? Gwiriwch galendr canllawiau'r YCY
- Offer – ydych chi'n eu dal, yn defnyddio acwsteg i gofnodi eu presenoldeb, neu'n syml yn arsylwi? (*Gweler Ecololiad – defnyddio sain i weld*)
- Pa ddull – trawslunio neu bwyntiau samplu?
- Diogelwch personol a chaniatâd o ran mynediad.

## Mapio a Digonedd – i gadw mewn cof

Mae amrywiol ffyrdd o ddisgrifio neu ddangos pa mor gyffredin neu eang ei gwmpas yw rhywogaeth.

Gall rhywogaethau sy'n haws eu cofnodi gael eu cofnodi'n amlach.

Ond nid yw rhywogaethau cyffredin bob amser yn cael eu cofnodi, oherwydd eu bod yn gyffredin.

Bydd mapiau dosbarthiad yn dangos pa mor eang yw cwmpas rhywbeth, er nad yw hynny'n dweud wrthym pa mor gyffredin y gallai fod. Efallai y byddan nhw'n dweud mwy wrthym ni am ble mae pobl yn cofnodi nag am ble mae'r ystlumod.

Hefyd ystyriwch amserlen casglu'r data.

## Cynlluniwch arolwg ystlumod o ardal leol rydych chi'n ei hadnabod yn dda

Rhestrwch yr holl bethau mae angen eu hystyried, heb anghofio manylion fel caniatâd perchennog y tir, trefniadau parcio a iechyd a diogelwch.



Mae monitro yn gam ymlaen o gynnal arolwg. Trwy ailadrodd arolwg yn yr un modd yn union nifer o weithiau, yn yr un lle ar yr un adeg o'r flwyddyn, mae'n bosibl amcangyfrif tueddiad – hynny yw, a yw poblogaethau'n cynyddu, yn lleihau neu'n sefydlog. Mae nifer o gynlluniau monitro yn cwmpasu'r rhan fwyaf o'r grwpiau tacsonomi; mae rhai yn gyfarwydd ac yn cael eu defnyddio gan lawer o bobl, tra bod eraill yn cael eu defnyddio gan ychydig o bobl yn unig. Mae'r mwyafrif yng ngofal sefydliadau preifat fel elusennau, a chan mwyaf maen nhw'n dibynnu ar wirfoddolwyr i helpu i gasglu data; yr enw ar hyn yw Gwyddor Dinasyddion.

## Rhaglen Genedlaethol Monitro Ystlumod (NBMP)

Mae'r Rhaglen hon ar waith ers 1997, felly dyma'r rhaglen fonitro hynaf a luniwyd at y diben sy'n cwmpasu sawl rhywogaeth o famaliaid yn y Deyrnas Unedig. Defnyddir tri phrif ddull arolygu i gasglu'r data: arolygon gaeafgyssgu yn y gaeaf, ac arolygon caeau a dyfrffyrdd a chyfrif safleoedd clwydo yn yr haf. Mae modd gwneud rhai heb offer arbennig, ond mae eraill ar lefel uwch. Mae'r NBMP yng ngofal yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod (YCY), mewn partneriaeth â'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC).



## O ddata'r NBMP

Cynhyrchir tueddiadau poblogaeth ar gyfer 11 o 17 rhywogaeth bridio'r Deyrnas Unedig.

Defnyddir data rhywogaethau detol i adrodd ar gynnydd tuag at nodau a thargedau er mwyn diogelu amrywiaeth biolegol.

### Cyfrifiad gaeafgyssgu NBMP

Mae safleoedd gaeafgyssgu hysbys yn cael eu monitro bob Ionawr a Chwefror ar gyfer y rhywogaethau sy'n gaeafgyssgu o dan ddaear. Dim ond gweithwyr ystlumod sydd â thrwyddedau arbennig sy'n gallu monitro ystlumod wrth iddyn nhw aeafgyssgu, gan ei bod hi'n arbennig o bwysig peidio â tharfu arnynt bryd hynny.


Yn 2013 am y tro cyntaf llwyddodd yr YCY i gynhyrchu tueddiadau poblogaeth ar gyfer saith rhywogaeth yng Nghymru. Gall y data hwn helpu i hysbysu Llywodraeth Cymru ynghylch effeithiolrwydd ei pholisïau a'i strategaethau cadwraeth natur. Mae angen monitro tymor hwy a mwy o gwmpas i'r arolygon i sicrhau bod gennym dueddiadau mwy pendant ar gyfer mwy o rywogaethau yng Nghymru.



© Shirley Thompson

### Ar afonydd a chamlesi

Anaml y bydd ystlumod dŵr yn defnyddio adeiladau yn safleoedd clwydo mamolaeth, felly maen nhw'n cael eu cyfrif yn yr haf wrth iddyn nhw hedfan ar hyd dyfrffyrdd. Mae'r un ardaloedd uwchben y dŵr yn cael eu monitro ar yr un adeg bob blwyddyn.



© Shirley Thompson

### Cyfrifiadau cytrefi mamolaeth yn yr haf

Bob mis Mehefin yn y Deyrnas Unedig bydd cannoedd o wirfoddolwyr ar draws Prydain yn cyfrif ystlumod wrth iddyn nhw ddod i'r golwg o'u safleoedd clwydo haf. Caiff sawl rhywogaeth eu cyfrif ar yr adeg hon. Mae'r safle clwydo mawr hwn i'r ystlum meinlais wedi cael ei fonitro ar gyfer yr NBMP bob blwyddyn ers 1996. Mae'r canlyniadau'n rhoi darlun llawer cliriach i ni nag y gall cyfrif unwaith.

## Rhywogaethau sy'n cael eu monitro gan yr NBMP

mwyaf, yr ystlum pedol lleiaf, ystlum Natterer, ystlum y dŵr, yr ystlum adain-lydan a'r ystlum du.

Defnyddir dau ddull ar gyfer pob rhywogaeth. Mae nifer bach o safleoedd clwydo ar gyfer rhywogaethau eraill hefyd yn cael eu monitro gan wirfoddolwyr.

**Defnyddir rhaglenni monitro'r YCY yn Ewrop a gwledydd eraill hefyd, gan roi i sefydliadau a llywodraethau'r wybodaeth angenrheidiol i helpu i sicrhau bod cadwraeth ystlumod yn gweithio.**